

YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 50
RHAGFYR 2012

Tymor sy'n gyforiog o draddodiadau yw Tymor yr Adfent. Bydd rhai ohonom yn llosgi cannwyll arbennig neu'n agor ffenestri calendr yr adfent i ddatgelu lluniau ac adnodau perthnasol. Yn aml iawn wedyn bydd ein heglwysi a'n capeli wedi'i haddurno â thorch o ddail bytholwyrdd gyda phedair cannwyll wedi'u gosod ynddi a'r rheiny yn cael eu goleuo fesul un bob wythnos. Diben pob un o'r arferion hyn yw ein tynnu i gyfeiriad Bethlehem er mwyn ein cynorthwyo i gofio am ddyfodiad Crist i'n byd.

Mae'n debyg mai un o draddodiadau'r Adfent a gychwynnodd yn wreiddiol yng ngwlad Ffrainc oedd yr arfer o greu golygfa'r geni drwy osod Mair a Joseff, y bugeiliaid, anifeiliaid y stabl, ynghyd â'r angylion yn eu lle. Ond byddai'r preseb yn cael ei adael yn hollol wag heb fod ynddo yr un darn o wellt na'r baban Iesu yn gorwedd yn ei grud. Gwaith y plant felly yn ystod Tymor yr Adfent fyddai rhoi un darn o wellt yn y preseb am bob un weithred dda a gyflawnwyd ganddynt yn ystod y dydd gyda'r nod o greu gwely cyfforddus a diddos erbyn dydd Nadolig. Bryd hynny y byddai'r baban Iesu yn cael ei osod ar ei wely o wair. Diben y traddodiad hwn oedd ceisio dysgu'r plant mai'r ffordd orau o baratoi at y Nadolig oedd cyflawni daioni a rhoi dysgeidiaeth Iesu ar waith yn eu bywydau.

Wn i ddim faint o fynd sydd ar y traddodiad hwn yn Ffrainc heddiw ac mewn gwledydd eraill ar draws y byd, ond mae'n draddodiad gwerthfawr sydd yn ein hatgoffa o fath arbennig o baratoi ar gyfer y Nadolig. Nid cyfnod i ruthro o fan i fan yw'r Adfent, na chwaith i ganolbwyntio'n unig ar yr ysbrydol, ond tymor ydyw i weithredu, i feddwl am eraill a chreu cymdeithas a byd y byddai'r Iesu ei hun yn teimlo'n hollol gartrefol ynddo. Dyma'r math orau o baratoi.

Felly wrth i ninnau edrych ymlaen at groesawu'r Iesu o'r newydd y tymor hwn, boed inni ymdrechu i sicrhau y bydd ganddo breseb cyfforddus a diddos ar Ddydd Nadolig ac o wneud hynny sicrhau y bydd ein cymdeithas yn gwbl unol â'i fywyd a'i ddysgeidiaeth.

Nadolig Llawen a phob bendith,
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

CALENDR MIS RHAGFYR 2012

Cyhoeddwr y Mis: William Howells	Organydd y Mis : Ceris Gruffudd	
2 Rhagfyr 2.30yp	Oedfa Gymun :Gweinidog Sul Cyntaf yr Adfent 'O! tyred di, Emanŵel...' (cyf. J D Vernon Lewis)	Bwrdd y Cymun: Richard a Gwenan
9 Rhagfyr 10.30yb	Oedfa Deuluol: Gweinidog 'Y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch a welodd oleuni mawr...'(Eseia 9:2)	
16 Rhagfyr 10.00yb	Oedfa'r Garol a'r Gair Ymuno â Bethel, Aberystwyth 'Fe'i gelwir, "Cynghorwr rhyfeddol, Cawr o ryfelwr, Tad bythol, Tywysog heddychlon"...' (Eseia 9:6)	
23 Rhagfyr 2.00yp	Oedfa Nadolig Horeb Thema: Angylion 'Ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd waredwr, yr hwn yw'r Meseia...' (Luc 2:11)	
25 Rhagfyr 8.00yb	Oedfa Gymun Fore'r Nadolig 'A daeth y Gair yn gnawd a phreswylio yn ein plith...' (Ioan 1: 14)	
30 Rhagfyr 10.30yb	Oedfa Diwedd y Flwyddyn: Gweinidog 'Yn dy law y mae f'amserau...' (Nantlais)	
6 Ionawr 2.30yp	Oedfa Gymun :Gweinidog 'O am ddechrau blwyddyn newydd gyda Duw mewn mawl a chân... ' (Joseph Evans)	Bwrdd y Cymun:Rhiannon a Carwen

I'ch Dyddiadur

3 Rhagfyr: Cinio Bara Caws Cymorth Cristnogol yn Seion, Stryd y Popty 12.15 – 1.30yp.
12 Rhagfyr: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys 12.00yp.
12 Rhagfyr: Cinio Nadolig Cymdeithas Bethel yn y Ffarmers, Llanfihangel-y-Creuddyn am 12.30yp.
20 Rhagfyr: Plygain draddodiadol dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys Sant Ioan am 7.30yh.
21 Rhagfyr: Oedfa Nadolig Ysgol Penweddig ym Methel am 10.30yb.
28 Rhagfyr: Cylch Darllen y Beibl yn Festri Horeb 7.30yh. Byddwn yn cychwyn ar Lyfr y Datguddiad.

Lloffion

- **Cydymdeimlwn** yn ddwys ag Eirian, Wendy, Derfel a Manon ar farwolaeth tad Eirian, Mr Jonah Reynolds.
- **Cydymdeimlwn** hefyd ag Ellen a Dafydd ar farwolaeth chwaer Ellen.
- **Llongyfarchiadau** gwresocaf i Glenys a Henry Thomas, ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt yn ddiweddar.
- **Llongyfarchiadau** i Kathleen a Ken Vincent, Arwelfa, Cefn-llwyd ar enedigaeth gorwyres, Ganwyd merch fach, Lyvia Alexander i Sharon a Neil Snowdon, Llanarth.
- **Dymuniadau gorau** i Karen, Mathew ac Owen Jac yn eu cartref newydd yn Rhydyfelin.
- **Diolch yn fawr i bawb** a gyfrannnodd i Ymgyrch Nadolig y Plentyn (Operation Christmas Child).
- **Diolch** hefyd i Meryl am gynnal sesiwn goginio ar gyfer y Nadolig yn y festri. Cawsom brynhawn hyfryd yn ei chwmni ac yn arbennig wrth flasu'r danteithion.

Cinio Nadolig Cymdeithas Bethel: Os hoffech ymuno â Chymdeithas Bethel ar gyfer eu cinio Nadolig yn y Ffarmers, Llanfihangel-y-Creuddyn rhowch wybod i Judith cyn gynted ag y bo modd. Trefnwyd bwydlen cinio nadolig arbennig ar ein cyfer am £15 y pen.

Rhaglen Cymanfa Ganu: Copïau ar gael gan Ceris. Pris £1.35

Cylch Darllen y Beibl: Rydym newydd orffen darllen Llythyr Paul at y Philipiaid ac wedi cael blas ar neges Paul i'r Cristnogion yn Philipi. Yn ein cyfarfod nesaf byddwn yn dechrau darllen llyfr olaf y Testament Newydd, sef Llyfr y Datguddiad gan Ioan. Gan fod Dydd Nadolig yn syrthio ar ddydd Mawrth olaf y mis byddwn yn cyfarfod ar nos Wener, 28ain Rhagfyr am 7.30yh yn y Festri. Croeso cynnes i bawb.

Cyfraniadau: Er mwyn cydymffurfio ag anghenion awdit byddwn yn cau'r llyfrau ar 31 Rhagfyr 2012 ac felly gofynnwn yn garedig i bob cyfraniad fod mewn llaw erbyn 21 Rhagfyr fan bellaf. Bydd unrhyw gyfraniad ar ôl y dyddiad hwnnw yn cael ei gynnwys yng nghyfrifon 2013. Diolch yn fawr